

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyrol 3 Rhif 7

Yn rhad ac am ddim

Hydref 2022

Taith Ardal Felindre



Taith Felindre

gan Rob Evans

Ar ôl tipyn bach o law yn ystod y nos roedd y bore yn sych a'n taith ni yn Felindre, yr arweinydd oedd Gareth Jones, ond nid y Gareth Jones ond y Gareth Jones arall! Ia, dw i'n gwybod, dach chi wedi drysu dydach. Roedd pawb wedi drysu achos roedd y ddau Gareth Jones wedi troi fyny ac roedd rhaid i ni aros i weld pwy oedd y Gareth Jones go iawn. Yn y diwedd roedd yr ateb yn glir, Gareth Jones wrth gwrs.



Pan dach chi'n ysgrifennu stori y paragraff cyntaf yw'r un mwyaf anodd ynte! Ond ar ôl sortio hynny allan dw i wedi drysu'n llwyr, chithau hefyd mae'n siŵr. Roedden ni wedi

cyfarfod wrth ymyl eglwys Sant Llawddog, Penboyr ar ben y bryn uwchben Felindre. Roedd 17 ohonom yn barod i gerdded a cherdded i lawr y ffordd oedd y peth cyntaf er mwyn sefyll wrth gât i weld safle hen gastell mwnt a beili Tomenllawddog yn y cae. Dyma oedd yr adeiladau cyntaf roedd y Normaniaid yn codi cyn adeiladu un gryfach mewn cerrig ond yn amlwg roedden nhw wedi cael syniad am le gwell. Neu efallai roedd adran cynllunio Cyngor Sir Ceredigion wedi gwrthod eu cais nhw.



Troi rŵan i gerdded dros y ffordd a mynd trwy'r caeau am sbel i gyrraedd hen lwybr. Doedd dim llawer o ôl traed ar y llwybr ac roedd cnwd arbennig o fwyar duon mawr hefyd yn cadarnhau nad oedd llawer o bobl wedi ei

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ddefnyddio am sbel. Roedd tipyn bach llai o gnwd yna ar ôl i ni fynd heibio. Aros am ychydig i gael hanes rhyw wal wedi ei gorchuddio gan iorwg a chael esboniad. Roedd yn amlwg bod ni'n cerdded ar hyd hen lwybr roedd y gweithwyr yn defnyddio i gyrraedd eu gwaith a bod ni'n edrych ar wal hen dŷ dafarn lle maen siŵr bod llawer o weithwyr sychedig wedi defnyddio cyn iddyn nhw gyrraedd adref.

Roedden ni wir yng nghanol y cefn gwlad, yn hollol dawel heblaw amdanom ni'n clebran ond o'n i'n clywed rhywun yn siarad yr ochr arall o'r cwm. Roedd yn swnio fel bod rhyw sioe yn mynd ymlaen. Ond rhyw fath o anheddfa oedd yna, wedi ei boblogeiddio gan bobl roedden ni'n galw'n hipis ond yn ôl Gareth (peidiwch â gofyn pa un) roedd ganddyn nhw adran fawr IT yna - pobl bach! Yn raddol roedd pendraw Drefelin yn dod i'r golwg, rhes o fythynnod a hen gapel yn sefyll yn gadarn o'i flaen. I lawr wedyn tuag at yr afon a chael cipolwg pob hyn a hyn ar y tai'r ochr arall i'r pentrefan, i'r rhai gwyliadwrs roedd yr hen felin i'w weld efo'r ffrwd yn arwain at yr hen olwyn dŵr.

Croesi'r ffordd ac ymlaen at dŷ oedd yn perthyn i berchennog Melin Dolwion. Mae'r tŷ erbyn hyn wedi hen golli ei gymeriad ond dyna'r drefn ym mhob man y dyddiau yma. Wrth gerdded ymlaen a chyrraedd diwedd y lôn dyma fynwent heb gapel. Mae'r capel wedi symud i ryw fan gwyn, fan draw yr union yr un ffordd a llawer o bobl y dyddiau hyn. Mae'r capel yn hapus ei fyd ar gyrion Caerdydd yn Amgueddfa Werin San Ffagan – Capel Penrhiw.



A dyma ni wedi cyrraedd Felindre ac yn croesi cae ond nid unrhyw hen gae ond maes pêl droed Bargod Rangers! Mae llawer o hanes i'r Rangers ond mae'n hen bryd i ni gyrraedd yr Amgueddfa i gael ein picnic felly am fwy o wybodaeth edrychwch ar y we. Eisteddon ni yn gyfforddus wrth fyrdau, yn ein hoedran ni

mae'n llawer gwell nag eistedd ar y llawr - moethusrwydd pur! Amser i grwydro trwy'r Amgueddfa cyn dechrau ar ran olaf y daith. Os dach chi yn yr ardal gnewch yn siŵr bod chi'n galw i mewn, mae 'na lawer i'w weld.

Croesi i ochr arall y dre a mynd trwy'r coed ar Allt y Cribyn, trwy fynwent Capel Soar ac i lawr y llwybr i Gwmpengraig a gweld Capel Soar, tipyn o bellter o'r fynwent, a cherdded tuag at hen felin oedd yn perthyn i frawd Dafydd Iwan, wedi cau erbyn hyn a thai newydd o gwmpas. A dyma pryd wnaeth hi ddechrau bwrw glaw o ddifri ond dim ond un ymdrech fawr rŵan a dyma ni yn ôl tu allan i eglwys Sant Llawddog a'n ceir unwaith eto.

Taith ddiddorol dros ben a phawb wedi dysgu llawer am ardal dawel erbyn hyn ond a oedd ar un adeg yn gartref i 50 o felinau, pob un yn cael ei yrru gan ddŵr. Roedden ni'n ffodus i gael llawer o hanes, hanes sydd yn mynd yn llai gweledol yn gyflym. Diolch yn fawr i Gareth am ein harwain ac am drosglwyddo gymaint o wybodaeth ddiddorol i ni a'r holl baratoi o flaen llaw. Gei di arwain eto Gareth!

Penwythnos Garddio yn Llanbed

gan Jennifer Fell

Hoffech chi dreulio cwpl o ddiwrnodau yng nghwmni dysgwyr eraill a defnyddio'ch Cymraeg drwy'r amser?! Rhy frawychus?! Ie, dwi'n gwybod ei fod yn swnio'n heriol iawn. Ond peidiwch â bod ofn. Mae pawb yn helpu ei gilydd.

Dw i newydd gyrraedd adre ar ôl penwythnos yng Ngarth Newydd yn Llanbedr Pont Steffan (Llanbed/Lampeter) - lle cartrefol i godi eich hyder yn y Gymraeg. Nid ydy'n gwrs ffurfiol. Mae'n gyfle i ymarfer eich Cymraeg mewn sefyllfaoedd cefnogol ac yn llawn hwyl.

Roedd gynnon ni i gyd ddiddordeb mewn garddio, felly roedd gan yr holl weithgareddau dros y penwythnos gysylltiad â garddio. Dyma flas o'r hyn a wnaethon ni....

Aethon ni i Ardd Llanerchaeron i gael taith tywys gan y prif arddwr, Rhys. Roedd yn wych i glywed ei gynlluniau a gweld yr Ardd Furiog (Walled Garden). Diolch yn fawr iawn i Rhys achos, chwarae teg iddo, mae o'n dysgu Cymraeg hefyd! Ar ôl hynny wnaethon ni wirfoddoli am

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

sbell yn clirio rhai o'r llwyni. Ar ôl swper aeth rhai o'r criw i'r dafarn gymunedol yng Nghiliau Aeron, Y Vale, i gael diod haeddiannol!



Roedd y diwrnod wedyn yn llawn dop! Wnaethon ni ddechrau efo her fach(!) yn y dref. Y nod oedd siarad, yn Gymraeg wrth gwrs, ac esbonio i bobl yn y siopau beth oedden ni'n ei wneud dros y penwythnos. Ro'n i'n nerfus iawn ond wnes i benderfynu neidio i mewn beth bynnag. Wel, ro'n i'n teimlo trueni dros y bachgen oedd yn gweithio yn y siop lyfrau ond, chwarae teg iddo, wnaeth o wrando arna i a chymryd un o daflenni Garth Newydd i hysbysebu'r fenter newydd yn y siop. Chwarae teg i ddysgwyr eraill hefyd - dwi'n credu nid fi oedd yr unig un oedd yn chwysu ond roedd y teimlad o lwyddiant yn wych!

Ar ôl cinio aethon ni i Ardd Cae Hir. Clywson ni ychydig am hanes yr ardd a siarad â'r brawd a chwaer sy'n ei redeg. Cafodd yr ardd ei sefydlu gan eu tad. Tasech chi'n mynd, baswn i'n awgrymu gadael digon o amser am banad a chacen - mae eu cacennau'n flasus iawn! A heb os, mae'r ardd yn werth ei weld.



Wedyn, ymlaen i ardd Dilys am weithgaredd addurno het wellt. Wel, do'n i ddim yn disgwyl cymaint o hwyl a sbri! Hefyd, clywson ni gan Diana am brosiect ei theulu i newid eu ffordd o fyw yn llwyr ac i drawsnewid eu gardd i fod yn

hunangynhaliol. Dim ond cwpl o flynyddoedd yn ôl wnaethon nhw symud i Gymru ac mae Diana yn rhugl yn y Gymraeg yn barod! Waw, am ysbrydoliaeth! Maen nhw wedi gwneud llawer o waith erbyn hyn ac mae eu cnydau yn edrych yn anhygoel.

Ymlaen i Aberaeron am 'sgod a sglods, yna i Winllan Laethliw i glywed gan Susan am waith eu teulu i greu'r winllan. O, ac i flasur gwin, wrth gwrs! Ie, prynais rywbeth i chi gael gwybod!

Wedyn gwely! Am benwythnos bendigedig!

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â codiwyder@gmail.com / www.paned.cymru

HAF 2022 **NEWYDDION CYFFROUS**

GARTH NEWYDD, LLANBED
LLE CARTREFOL I ADEILADU HYDER YN Y GYMRAEG

Mae'n darparu:

- Llety yn cynnwys cyrsiau er mwyn codi hyder pobl i siarad Cymraeg.
- Cyfle i fwynhau a rhannu profiadau mewn awyrgylch braf.
- Cyfle i brofi gweithgareddau newydd - ffotograffiaeth, hanes Cymru, crefft a mwyl!

• Cyfle i ddod i'nabod a chymdeithasu gyda siaradwyr iaith gyntaf.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
codiwyder@gmail.com
www.paned.cymru
...neu galwch helbio!

Garth Newydd
Stryd y Bont
Llanbedr Porth Steffan
SA48 7AA

Paned
cymru

Helpwch ymledu'r Gair!

Mae'r Wennol yn dibynnu ar bobl i basio'r pdf ymlaen er mwyn cael cyhoeddusrwydd. Felly anfonwch y pdf ymlaen i'ch ffrindiau sy'n dysgu

Diolch

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Bwydo'r Ieir

gan Sally Silyn Roberts



Gwelais y ffwng anhygoel yma yn tyfu ar goeden Ywen hynafol, ym mynwent Eglwys Llanrhychwyn. Mae'r bocs adar wrth ei ymyl yn rhoi syniad o'i faint i chi. (Diolch i Iwan Roberts am gadarnhau mai 'Ysgwydd Felen' yw'r enw, yn Saesneg 'Chicken of the Woods', Latin *Laetiporus sulphureus*). Mae angen ychydig o ddychymyg i weld tebygrwydd i iâr!

Maen nhw'n dweud mai'r eglwys hon yw'r hynaf yng Nghymru. Adeiladwyd mewn tri cham: yn ystod canrifoedd 11eg, 13eg ac 16eg. Tu fewn mae harddwch a thawelwch arbennig iawn. Mae gan Lanrhychwyn lawer o atgofion gwerthfawr i mi a fy nheulu. Mae'r bwthyn bach lle caeth fy nhad ei fagu yn chwarter milltir o'r eglwys. Roeddwn i bob amser wrth fy modd yn gwrando ar straeon fy nhad am y anturiaethau roedd ef a'i frawd yn cael pan oedden nhw'n blant yn yr ardal hon. Fel plentyn fy hun, roeddwn i wrth fy modd ar wyliau teulu pan fydd fy nhad yn mynd â ni o gwmpas ei hoff leoedd: llynnoedd Crafnant a Geirionnydd, yr hen siafftiau mwyngloddio yn is i lawr y dyffrynnoedd, a'r hen Eglwys hyfryd.

Dw i'n meddwl bod rhai o fy hynafiaid wedi'u claddu yn y fynwent. Felly.... ella bod eu hesgryn yn bwydo'r goeden Ywen; mae'r goeden yn bwydo'r Ieir/chicken; felly ella bod fy hynafiaid yn bwydo'r Ieir?

Ffordd o Ddysgu

gan Deborah Ledbrook

Yn ddiweddar, clywais bodlediad yn Sbaeneg gan Karo Martinez (Espanol Automatico) am sut i wella eich iaith lafar, mewn unrhyw iaith dych chi'n dysgu. Roedd y wybodaeth yn ddefnyddiol iawn i fi, felly ro'n i'n meddwl y baswn i'n ei rhannu a phawb.

Awgrymodd hi ddefnyddio un o'r saith ffordd i ymarfer (a dim ond un ar y tro) am funud yn unig i ddechrau:

1. Pan dych chi'n gwrando ar rywbeth, ysgrifennwch e i lawr*
2. Pan dych chi'n darllen rhywbeth, darllenwch e un uchel.
3. Esboniwch e i chi eich hun
4. Crynhowch yr hyn dych chi newydd ddarllen/clywed, mewn un gair os yn bosibl, neu rhwch deitl i bob paragraff (tipyn bach fel gwneud "bullet points")
5. Adolygu - 5-10 munud cyn mynd i'r gwely. Fel hyn, mae hi'n dweud, mae eich ymennydd yn meddwl "rhaid i hyn fod yn bwysig - rhaid i fi drio cofio fe".
6. Cysgu (am fwy nag un funud gobeithio!)
7. Ymarfer corff, anadlu, ymlacio (mae hynny yn swnio fel Yoga i fi, bob amser yn syniad da).

* Yn ôl Karo, mae astudiaethau wedi dangos pan dych chi'n ysgrifennu â llaw (yn hytrach na theipio) bydd eich ymennydd yn cadw 40% mwy o wybodaeth.

Mae Karo yn esbonio bod hi'n bwysig iawn defnyddio gynifer o'ch pum synnwyr â phosibl (siarad, gweld, clywed - arogli fe os gallwch chi!!). Pan dych chi'n darllen paragraff, mwy na thebyg na allwch chi gofio'r rhan fwyaf ohono fe wedyn. Ond os dych chi'n gwybod bydd rhaid i chi esponio (neu gyfieithu, crynhoi ac ati) beth dych chi wedi darllen, dych chi'n mynd i drio yn fwy caled i gael sylw ohono.

(Dw i wir yn credu hyn - dw i'n trio darllen llawer ar hyn o bryd (cyn i fi ddechrau fy nghwrs Canolradd ym mis Medi!) a hyd yn oed pan dw i wedi deall popeth mewn paragraff, allwn i ddim ei ailadrodd neu'i grynhoi).

Mae Karo yn awgrymu dechrau gyda dim ond un funud er mewn llwyddo. Peidiwch â gosod eich hun i fethu gan drio gwneud gormod i ddechrau. Cadwch eich profiadau yn bositif!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalenau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Arianwen Evans

Fy enw i yw Arianwen. Dw i newydd gyrraedd Prifysgol McMaster yng Nghanada! Dw i wedi bod yn gwersylla a chael hwyl yn rafftio ac yn mynd ar yr afon mewn canŵ a chaiac. Dw i wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd yn barod.

Gwersylla - to camp

Ann Griffiths

Helo, Ann dw i. Dw i'n byw yn Llanarth yng Ngheredigion. Dw i wedi symud o Sir Gaer i Lanarth ym mis Gorffennaf. Dw i'n joio byw yng Nghymru! Dw i'n wedi bod yn dysgu Cymraeg eleni. Dw i wedi gwneud Say Something in Welsh a Duolingo. Gobeithio dw i'n mynd i ymarfer mwy nawr achos dw i'n gallu siarad gyda phobl. Mae ci gyda fi. Enw fy nghy yw Bryn. Mae e'n hoffi mynd ar y traeth!

Gareth Davies

Gareth dw i. Dw i'n byw yn Llanisien yng Ngogledd Caerdydd. Dw i wedi bod yn dysgu am bedair blynedd. Athro mathemateg dw i mewn coleg y chweched. Dw i'n hoffi chwarae gemau bwrdd gyda ffrindiau yn fy amser sbâr. Fy hoff air Cymraeg yw hofrennydd.

Dros yr haf, es i ar wyliau i'r Alban gyda fy ngheulu. Cawson ni wyliau mewn cwch ar gamlas Caledonia.

Gemau bwrdd - board games

Hofrennydd - helicopter

Camlas - canal

Barbara Price

Fy enw i yw Barbara a dw i wedi bod yn dysgu ers 2001 o bryd i'w gilydd. Dw i'n Saesnes a dw i'n dod o Burnley yng Nghaerhirfryn. Dw i'n byw yn Crofty gyda fy ngŵr Maldwyn. Dw i wedi ymddeol. Rydw i wedi bod yn Abertawe ers 2001

ac roeddwn i'n gweithio fel ysgrifennydd meddygol yn ysbyty Treforys cyn i mi ymddeol.

O bryd i'w gilydd - now and then

Caerhirfryn - Lancashire

Ysgrifennydd meddygol - medical secretary

Gwledd o Gerddoriaeth

gan Ffred Nicholas

Neithiwr aeth Lilian a finau i Neuadd Dewi Sant ar gyfer Last Night of the Proms. Roedd yn noson wych. Fy hoff gerddorfa oedd yn chwarae - yr WNO (Welsh National Opera), gydag Owen Arwel Hughes yr arwain. Roedd y rhaglen yn dda iawn a'r sain yr WNO yn ardderchog. Yn fy marn i dyma gerddorfa orau Cymru. Roedd David Childs yr unawdydd, yn perfformio'r Concerto for Tenor Twba gan Vaughan Williams yn ogystal â Czardas a Flight of the Bumble Bee, yn dangos ei rinwedd. Daeth y noson i ben yn y ffordd draddodiadol gyda'r Anthem Genedlaethol. Cefnogwyd y cyngerdd yn dda ac roedd yn neis gweld pobl yn dod nôl i'r neuadd ar ôl amser mor hir.

Neuadd Dewi Sant - St David's Hall

Noson wych - a great night

Cerddorfa - orchestra

Arwain - conducting

Rhaglen - programme

Sain - sound

Unawdydd - solo (performer)

Yn ogystal â - as well as

Rhinwedd - virtue

Y ffordd traddodiadol - the traditional way

Cefnogi - to support

And what about you? Could you write something like these? Of course you could! Writing helps to consolidate what you have learned so it improves your learning experience - honestly!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Anne DeMarsay

Anne dw i, siaradwr Cymraeg newydd o America. Dw i'n byw yn Virginia, ym maestref o Washington, D.C. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ar-lein am tua dwy flynedd a hanner efo Say Something in Welsh a Dysgu Cymraeg. Ar hyn o bryd, dw i'n cymryd y Cwrs Canolradd efo Dysgu Cymraeg.

Na, doedd fy nheulu ddim yn dod o Gymru yn wreiddiol. Ond ges i fy magu ger ardal brydferth yn Wisconsin lle daeth y Cymry yn y 19eg ganrif. Fel plentyn, o'n i'n teimlo bod yr ardal ychydig yn hudolus. Felly, o'n i wastad isio dysgu mwy am Gymru a'r iaith a'r diwylliant.

Dw i'n hoffi gwrando ar Radio Cymru a dysgu am gerddoriaeth Gymraeg. Fy hoff gerddor ydy Morgan Elwy. Dw i'n edrych ymlaen at ymweld â Chymru flwyddyn nesaf.

Maestref - suburb
Hudolus - magical
Diwylliant - culture
Cerddoriaeth - music
Cerddor - singer

Kath Semple

Kath Semple dw i. Dw i'n byw yn Surrey, ger Maes Awyr Gatwick, ond dw i'n mynd i Ogledd Cymru yn aml i gerdded yn y mynyddoedd a nofio yn y llynnoedd a'r afonydd.

Dechreuais i ddysgu'r Gymraeg ddwy flynedd yn ôl. Dw i'n defnyddio Duolingo, ond mae gen i ddosbarth ar-lein hefyd. Mae Cymraeg yn anodd iawn, a dw i'n dysgu'n araf iawn! Ond dw i'n gwella'n araf!

Lorraine Davies

S'mae pawb. Lorraine dw i. Dw i'n byw yn Lloegr, ger Bryste. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg am bedair blynedd nawr. Dw i'n dod o Gymru yn wreiddiol ond doedd neb yn fy nheulu'n siarad Cymraeg. Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg a dw i wedi cwrdd â llawer o ffrindiau newydd. Dyn ni wedi bod i gyngherddau a'r theatr i weld sioeau - i gyd yn y Gymraeg, wrth gwrs!

Bryste - Bristol

Marion Oughton

Marion ydw i. Dw i'n byw mewn pentre' bach ger Pont Senni, sef Crai. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers tua degawd. Dw i wedi ymddeol. Ro'n i'n arfer gweithio fel storiwraig, yn Saesneg. Storiâu traddodiadol, llafar. Nawr, dw i'n dweud storiâu yn Gymraeg, i ddysgwyr. Dw i'n hoffi canu consortina a drwm djembe; sgio traws gwlad; dysgu a siarad ieithoedd. Ddydd Mawrth 6ed o Fedi, es i i'r gêm pêl-droed rhwng Cymru a Slovenia. Dim ond yr ail gêm i fi. Ro'n i'n hoffi'r profiad. Llongyfarchiadau i Gymru a phob lwc yn erbyn Bosnia yn fis Hydref!

Degawd - a decade
Storiwraig - storyteller
Traddodiadol - traditional
Llafar - verbal
Traws gwlad - cross-country
Profiad - experience
Llongyfarchiadau - congratulations

Stephen Moore

Fy enw i ydy Stephen Moore, dw i'n byw mewn dre o'r enw Ellesmere Port ger Caer (Chester) dim yn bell o Gymru,

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg am tua dwy flynedd efo Say Something in Welsh a Duolingo, dw i wrth fy modd yn dysgu Cymraeg,

O'n i isio dysgu Cymraeg pan o'n i ar wyliau ar Ynys Môn ychydig o flynyddoedd yn ôl, o'n i'n ymweld â Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyn-drobwyllyllantysiliogogogoch. Gofynnodd hen ddynes i mi "fedrech chi siarad Cymraeg? Dywedais i "Na fedrai i ddim siarad Cymraeg" felly dw i'n penderfynu dysgu'r iaith.

Oedd gen i deulu yn byw yn ne Cymru mewn lle o'r enw Cwmfelin Fach, dw i'n credu roedd fy hen, hen Daid yn siarad Cymraeg efo ffrindiau bob dydd Sul yn ei dŷ,

O'n i'n gweithio yn Vauxhall Motors am tua thri deg wyth mlynedd, ges i gyfle i ymddeol yn gynnar, rŵan dw i'n mwynhau chwarae golff.

Mae gen i gi o'r enw Poppy, mae hi'n miniature labradoodle ac yn boncyrs iawn, dw i'n mwynhau mynd am dro efo hi bob dydd

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027



Dewch efo ni ...

... am lond diwrnod o siarad tu allan yn y cefn gwlad a dysgu am fyd natur a hanes lleol. Wrth gerdded efo ni yn reolaidd byddech yn gallu gweld lliwiau ein byd yn newid trwy'r tymhorau, gwneud ffrindiau newydd a dod i adnabod y byd Cymraeg.

Y De a'r Canolbarth

Rhaglen mis Hydref 2022

Mae pob taith yn dechrau am 10.30

Dim cŵn os gwelwch yn dda

1.10.2022 Rheilffordd goll y Grwyne Fawr Taith sy'n dilyn llwybr rheilffordd a godwyd er mwyn creu cronfa ddŵr ar gyfer Abertyleri yn gynnar yn yr 20fed ganrif. Does dim llawer o olion amlwg ond mae 'na stori ddiddorol yn cuddio yn y cwm. Byddwn ni'n gyrru 8 milltir lan y cwm, yn dilyn trywydd y rheilffordd, mor bell â maes parcio Blaen y Cwm. Wedyn cerdded at yr argae a'r gronfa a dod nôl ar hyd y grib uwchben Capel y Ffin - 4 i 5 milltir o gerdded. Cymedrol ond yn agored ac uchel (rhwng 500 a 600 metr). **Man Cyfarfod:** Culfan gyferbyn â Llwyncelyn, ar y ffordd sy'n troi o Ddyffryn Honddu i gyfeiriad Fforest Coal Pit. Cod post agosaf: **NP7 7NE, Grid: SO308217.**

Arweinydd: Jeff Davies 07854 777019 01873 856863

8.10.2022 Ardal Aberaeron a Ffos y Ffin Cylchdaith tua 7 milltir ar lwybrau a ffyrdd gwledig. Golygfeydd eang. Bach o ddisgyniad serth tua diwedd y daith. **Man cyfarfod:** Maes parcio Ysgol Gyfun Aberaeron. Cod Post agosaf: **SA46 0DT. Grid: SN460625** **Arweinydd: Marina James** 01545 571045 07814 868573

15.10.2022 Llwybr Arfordirol y Mileniwm, Llanelli Cylchdaith tua 6 milltir yn dilyn Llwybr yr Arfordir, braidd dim dringo, llwybr cadarn ar y cyfan. Mi fydd yn bosib gadael y daith a mynd yn ôl mewn sawl man. **Man Cyfarfod:** Parcio ar Stryd Cambrian, gyferbyn a Doc y Gogledd, ger Tafarn y New Cornish Arms. Ar gylchfan Lliedi, cymerwch y 3ydd allanfa (o gyfeiriad Abertawe) **Cod Post: SA15 2PN Grid: SS500994**

Arweinyddion: Gill ac Alun Griffiths 01269 594406 07792 562136

22.10.2022 Llanfihangel-y-Creuddyn Cylchdaith gymedrol rhwng 5-6 milltir o ymyl Carreg Gwylfihangel i olwg Afon Rheidol ac yn ôl. Ychydig ddringo a thir gwlyb. **Man Cyfarfod:** Yn ymyl Carreg Gwylfihangel. **Grid: SN700767**

Arweinydd: John Williams: 01970 616173

Beth nesaf?

Cyrsiau'n dod i ben yn yr haf?

Os felly dyma'r amser i sefydlu grŵp yn eich ardal er mwyn i chi a'ch cyd-ddysgwyr cadw eich Cymraeg i fynd. Mae mor syml i'w wneud, does dim ond rhaid i chi wneud yn siŵr bod cyfeiriadau pawb gennych chi, dewis rywle gyhoeddus i gyfarfod a dyna chi.

Mae'n bwysig bod chi'n cyfarfod ble mae pawb yn eich gweld chi achos, unwaith mae'r Cymry yn eich clywed chi bydden nhw eisio gwybod pwy ydach chi a phopeth amdanoch chi. Byddech chi wedi dechrau ar eich taith i fyd yr iaith. Ac mae'n fyd pleserus achos mae'r iaith angen pobl fel chi, pobl sydd wedi gwneud ymdrechion mawr i'w dysgu.

Byddech yn helpu ni i gadw'r iaith i fynd ac mae hynny'n bwysig dros ben achos mae pwysau mawr ar yr iaith. Ces i fy ngeni yn sir Fôn mewn pentref ble roedd y Gymraeg i'w glywed ym mhob man ond pan dw i'n mynd yn ôl dim ond Saesneg dw i'n clywed. Mae hynny'n drist ofnadwy.

Mae digon o ddysgwyr yn cofrestru i ddysgu pob blwyddyn i wneud môr o wahaniaeth ond er bod llawer yn cofrestru mae llawer yn methu torri mewn i'r byd Gymraeg. Bydd ffurfio grŵp yn cadw chi yn yr iaith.

Nid yn unig hynny mi fydddech chi yna i roi cefnogaeth i'r dysgwyr sydd yn eich dilyn chi, rhoi'r cyfle iddyn nhw siarad a chael hwyl yn yr iaith. Pob blwyddyn bydd eich grŵp yn tyfu a bydd mwy a mwy o ddysgwyr yn cyrraedd y gymuned Cymraeg.

Petasai hyn yn digwydd trwy Gymru gyfan pwy ag ŵyr faint o ddysgwyr bydd yn cael y cyfle i fwynhau siarad Cymraeg pob dydd.

Pan dach chi wedi sefydlu'r grŵp gadewch i mi wybod a byddaf yn ei restru yn Y Wennol.

What next?

Courses coming to an end in the summer?

If so this is the time to set up a group in your area so that you and your fellow learners keep your Welsh going. It is so easy to do, you only have to make sure that you have email addresses from everyone, choose somewhere public where you can meet, and there you are.

It's important that you meet where people can see you because, once Welsh people hear you they will want to know who you are and everything about you. You will then have begun your journey into the world of Welsh. And it is a very pleasurable world because the language needs people like you, people who have made such an effort to learn.

You will be helping us to keep the language alive and that is so important because of the pressures on the it. I was born in a village in Anglesey and Welsh was heard everywhere but when I go back now I only hear English. I find that very sad.

There are enough learners registering to learn every year to make a huge difference but so many find it difficult to break into the Welsh world. Forming a group would keep you in the language.

Not only that, you would be able to support those learners who follow you, to give them the chance to chat and have fun through the medium of Welsh. Each year your group will grow and more and more learners will reach the Welsh community.

If this happened all over Wales who knows how many learners would get the chance to speak Welsh every day.

When you've set up your group let me know and I can list it in the Wennol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Llofruddiaeth yn y Gwely Rhosod

Gan Lillian Harrison



Un noson ym mis Awst, yma yn ne ddwyrain Cernyw, fe glywsom sŵn taro yn erbyn ffenestr y lolfâ.

“Beth oedd y sŵn?”, fe ofynnais i wrth Phil, fy ngŵr. “Efallai bod deryn wedi taro yn erbyn y ffenestr fawr?”

Ie, dyna beth oedd wedi digwydd. Roedd colomen anffodus wedi taro mewn i'r ffenestr wrth drio dianc rhag gwalch glas ifanc.

Ymosododd y gwalch glas newynog ar y golomen fel cigydd profiadol. Arhosodd y deryn ifanc gyda'i ysglyfaeth tan yr oedd wedi bwyta bob tamaid o'r golomen. Dim ond plu oedd ar ôl yn y gwely blodau!

Ar ôl i hyn ddigwydd, fe ymchwiliais i natur y gwalch glas, doeddwn i ddim wedi gweld un o'r blaen, i ddweud y gwir. Cuddio i ymosod yw hoff ffordd o hela y gwalch glas. Mae ganddyn nhw lygaid melyn nodedig. Mae'r fenyw yn fwy o faint na'r gwryw.

Fe rannais i'r llun gyda grŵp facebook lleol yn ddiweddar. Atebodd dros chwe deg o bobl eu bod nhw'n hoffi'r llun neu maen nhw'n ateb gyda “wow!”. Ond fe ges i syndod gydag ychydig o'r sylwadau. Ar yr un llaw mae rhai pobl wedi dweud bod y gwalch glas yn ysglyfaethwr pennaf, a dyna natur. Mae cylch bywyd yn gallu bod yn greulon. Ond, ar y llaw arall, dwedodd un neu ddau ei fod yn erchyll a dylen ni geisio ei atal yn y dyfodol, os bydd yr adar mawr yn dychwelyd!

Beth ydych chi'n meddwl?

Cymraeg a Cheffylau

gan Gill Mason

Shwmae, Gill dw i.

Dwi'n dod o Loegr. Dwi'n byw ger Caerfaddon. Rydw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ar Duolingo. Mae gen i ffrind Cymraeg sy'n byw yn Lloegr. Dw i eisiau gallu siarad Cymraeg gyda hi.



Ei henw hi yw Manon. Mae hi'n fy helpu i ddysgu Cymraeg. Rwy'n ei dysgu hi i farchogaeth fy ngheffyl. Mae gen i geffyl o'r enw Mabel. Mae hi'n geffyl brown ac mae ganddi thair hosan wen.

Rwy'n gweithio fel gofaluwraig. Rwy'n gofalu am wraig sy'n 101 oed. Pan mae'n heulog, mae hi'n hoffi nofio yn ei phwll nofio awyr agored. (mae'n rhy oer i fi!) Mae gen i wyrion - dau fachgen bach (dau a phump) sy'n cadw mam-gu yn brysur iawn! Maen nhw'n mwynhau chwarae gyda thractorau.

Rwy'n hoffi ymweld â Chymru. Rydw i wedi dringo Pen y Fan. Rwyf wedi aros yn Aberaeron, Beddgelert a Chaerfyrddin.

Cyd-ddigwyddiad mewn Hanes

gan Bryan Roberts

Ar ôl i mi lwyddo ymddeol yn gynnar, mi wnes i ddechrau gweithio ar hanes fy nheulu a pharhaodd y proses dros ugain mlynedd, oherwydd doeddwn i ddim yn gallu dod o hyd i beth ddigwyddodd i fy nain famol. Mae hwn yn stori wahanol am gyfnod gwahanol; yr unig beth dw i eisiau dweud amdani ar hyn o bryd iddi gymryd mwy nag ugain mlynedd i ddod o hyd i unrhyw gofnod o'i marwolaeth.

Beth bynnag, er mod fy nheulu yn un cyffredin, fel bron pob teulu arall, nid ydy o'n un

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

diflas. Er enghraifft, yn hanes fy nheulu mae 'na chyd-ddigwyddiadau a chysylltiadau annisgwyl, hoffwn eu rhannu efo chi.

Dyma'r un sydd bron yn anghredadwy, yn fy marn i. Ym mhob stori, bu fachgen ifanc farw wrth syrthio mewn i ddŵr.

Yn 1889, aeth Gabriel Henry Forster, brawd fy nain famol, i chwarae efo ffrindiau yn agos at y dociau ym Mhenbedw. Syrthiodd i'r dŵr ond llwyddodd i ddod allan yn ddiogel. Ta waith, roedd yn poeni basa'i fam yn gweiddi arno fo tasa fo'n mynd adre yn wlyb sop. Penderfynodd aros allan tan i'w ddrillad sychu. Mis Ebrill oed o ac, heb os, yn eithaf oer. O ganlyniad, datblygodd niwmonia a bu farw yn ddeg oedd. Unig fachgen o'i deulu oedd Gabriel ac felly, bu farw'r enw Forster efo fo.

Digwyddodd y ddau ddamwain nesaf yn union yr un ffordd.



Gaf i eich cyflwyno chi i William Arthur Russell, ewythr i mi? Roedd yn byw yn Barton on Humber, y dref yng nghysgod bont Hwmbur, yma roedd gan ei rhieni dafarn (gweler llun). Ar yr wythfed o fis Awst 1909, aeth William efo ffrind a pherchennog y llong "Mary Elizabeth" mewn cwch bach rhwyfo i ymweld â'r llong ar angor yn yr afon Hwmbur.

Tuag at amser cinio, penderfynodd William fynd adref. Dechreuodd o ddringo i lawr o'r llong i'r cwch ond, yn anffodus, syrthiodd rhwng y llong a'r cwch. Gwelodd un o'r dynion ar y llong beth ddigwyddodd a neidiodd i mewn i'r afon er mwyn ceisio achub y bachgen, heb lwyddo, roedd o wedi diflannu. Cafodd ei gorff ei ddarganfod tair awr wedyn.

Ymlaen hanner cant o flynyddoedd, i 1959 a hanes fy nghefnder, Michael Stewart Roberts, fel fi yn un o Langollen. Ymunodd a'r llynges

fasnachol yn syth ar ôl gadael yr ysgol. Dim mwy nag ychydig o fisoedd wedyn, roedd ei long "Yr Acclivity" ar angor yn yr Afon Tafwys yn aros i ddadlwytho ei chargo. Dringodd Michael i lawr ysgol i wneud rhywbeth i'r cwch bach a oedd ar glwm wrth ochor yr "Acclivity". Yn anffodus aeth llong fawr heibio, siglo'r cwch bach yn dreisgar a syrthiodd Michael i mewn i'r afon rhwng y llong a'r cwch, cafodd o ei foddi hefyd. Dim ond un deg chwe blwydd oedd o.

Mae'r digwyddiadau hyn yn anhygoel o debyg ond ydyn nhw?

Dyna fo felly, marwolaethau dri hogyn ifanc fy nheulu yn 1889, 1909 a 1959. Maen nhw'n dweud bod gwirionedd yn rhyfeddach na ffuglen.

Allech chi ddim dadlau efo hynny!

Cath yng Nghanol Gaeaf

gan Marie Mills



Amser maith yn ôl ym 1993 pan o'n i'n ferch eithaf ifanc nes i symud i Wlad Pwyl i weithio fel athrawes Saesneg. Roedd y Ffederasiwn Rwsiaid wedi dod i ben yn ddiweddar ac roedd y wlad eisiau'r gallu i gysylltu â gwledydd eraill Ewrop. Roedd ysgolion yr iaith Saesneg yn tyfu ym mhob man yno. Roedd hi'n gyfnod diddorol iawn...

Cyrhaeddais i ar ddiwedd mis Medi. Ro'n i'n byw mewn fflat gydag athro arall oedd yn dod o Foroco. Roedd yr adeilad yn debyg i ran fwyaf o'r adeiladau yn yr ardal. Roedd pum llawr oherwydd doedd dim angen i osod lifft yno. Dw i ddim yn cofio yn union ar ba lawr roedd ein fflat. Roedd o leiaf un teulu yn byw uwchben ni ond roedd llawer o risiau. Ro'n i'n ffit iawn, wrth

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

gwrs, oherwydd y grisiau a'r daith i'r ysgol ac yn ôl ar ôl fy nosbarth.

Pryd hynny roedd y ddwy ohonon ni'n gweithio gyda'n gilydd yn dysgu dau ddosbarth i gwmni cysylltiad teleffonau. Roedd y myfyrwyr o dan lawer o bwysau i lwyddo, ac roedd rhaid i'r ddwy ohonon ni greu'r cwrs, y gwersi a'r adnoddau i gyd - popeth - ar ein pennau ein hunain. Roedd llawer o waith i ni'n dwy. Ond roedd Jane a fi yn deall ein gilydd yn dda iawn, ac roedd y myfyrwyr yn hyfryd ac yn ddiolchgar iawn hefyd.

Roedd y daith rhwng y fflat a'r ysgol yn hyfryd ar y cyfan. Ro'n i'n mwynhau gweld popeth - y bobl, y siopau a'r strydoedd. Roedd hi'n ddiddorol iawn ac roedd rhywbeth yn newid bob wythnos. Roedd archfarchnad gyda desgiau talu electronig, a siopau eraill gyda blwch arian o dan y cownter o hyd. Roedd pobl yn gwneud ciw i aros am fasged yn yr archfarchnad leol. Unwaith gwelais i geffyl yn tynnu cert llawn glo.

Roedd y ffyrdd oedd rhaid i ni groesi bob diwrnod yn llydan iawn. Faint o ffyrdd? Does dim syniad gyda fi nawr, ond siŵr o fod o leiaf pedwar.

Wel, ar yr unfed ar ddeg ar hugain o Hydref pan oedden ni ar y ffordd adref ar ôl diwrnod brysur iawn yn yr ysgol, gwelais gath fach yn dawnsio ymhlith y ceir a lorïau. Croesais y ffordd yn ofalus a chodi'r gath ar yr un pryd. O ble oedd hi wedi dod? Doedd dim cartrefi yn yr ardal o gwbl - dim ond swyddfeydd a siopau. Felly, codais i hi a'i roi tu mewn i fy nghot ac es ymlaen adref.

Tu mewn i'r flat agorais i fy nghot tipyn bach. Roedd y gath yn cysgu'n sownd. Hyfryd. Dodais i hi ar y llawr, ac wedyn es i i'r gegin i nôl powlen o ddŵr iddi. Anwesais i hi tipyn bach. Roedd hi'n hapus iawn ac yn canu grwndi. Hyfryd, hyfryd, hyfryd. Ro'n i'n hollol siŵr roedd hi wedi cael ei magu mewn teulu, ond yn amlwg hefyd roedd hi wedi byw ar y strydoedd am amser hir.

Roedd rhaid iddi gael bath. Doedd hi ddim yn hapus am hynny...

Pan ddeffron ni ar y cyntaf o Dachwedd roedd blanced o eira yn gorwedd ym mhob man ac roedd y tymheredd wedi cwmpo'n isel. Roedd hi rhwng 8 a 15 gradd o dan y rhewbwynt dros yr wythnosau nesa. Taswn i ddim wedi ei hachub

hi, fysai hi ddim wedi goroesi'r noson honno, dw i'n siŵr.

Penderfynais i gadw hi ar unwaith, a galwais i'r bachgen bach hwn Toby. Nawr, gyda pherson neis, cartre go iawn a digon o fwyd, roedd e'n hapus iawn ac roedd e'n tyfu fel coeden ffa Jac. Ond dyna stori arall...

Gwell hwyr na Hwyrach

gan Rob Evans



Fel dwedes i yn Wennol mis Medi mae gen i gnwd go dda o afalau yn yr ardd ond yn ôl yn y gwanwyn roedd rhai o'r coed heb flodau, doeddwn i ddim yn poeni llawer achos roedd digon o flodau ar y lleill. Dydw i ddim wedi dechrau cynaeafu'r afalau eto ond dw i wedi bod yn casglu'r rhai sydd wedi syrthio i'r llawr.

Trio gweithio allan yr amser gorau i gynaeafu yw'r tric a dw i'n gwybod bydd rhaid i mi ei wneud yn reit fuan (heddiw yw'r 2il o fis Medi). Y bore 'ma es i allan i weld os ydyn nhw'n dechrau teimlo'n rhydd ac roedd yn syndod i mi fod un o'r coed yn blodeuo. Gwell hwyr na hwyrach wrth gwrs ac mae digon o bryfed o gwmpas i'w peillio a byddaf yn cadw fy llygaid arnyn nhw. Efallai byddaf yn cael cnwd o afalau dros y Nadolig.

Od iawn ynte!

A dw i'n gwybod bydd rhai ohonoch chi'n meddwl fy mod i'n tynnu eich coesau, mi ydw i weithiau. Ond i brofi mod i'n dweud y gwir dw i wedi tynnu llun o'r blodau a hefyd yr afalau ar y goeden wrth ei hochr.

Mae'n ofnadwy mod i'n gorfod profi mod i'n dweud y gwir!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ffordd Declan Sant

gan Claire Boot



The Rock of Cashel

Ym mis Mai, es i i Iwerddon am y tro cyntaf. Cerddais i ar Ffordd Declan Sant, o Gashel yn Sir Tipperary i Ardmore yn Sir Waterford. Cerddodd Declan y ffordd hon pan aeth e i gyfarfod â Padrig Sant yn y bumed ganrif. Ar ôl blynyddoedd lawer o waith gan bobl leol, agorwyd y llwybr modern yn swyddogol yn 2021.

Do'n i ddim yn cerdded ar fy mhen fy hun, ond gyda grŵp o bobl o Ganada, Yr Unol Daleithiau, Iwerddon a Lloegr. Cerddon ni tua 75 milltir mewn pum diwrnod a ro'n ni'n lwcus iawn i gael tywydd braf. Aethon ni trwy gaeau, ar hyd afonydd a thros fryniau, gan gyrraedd y môr o'r diwedd. Bob nos, arhoson ni yn Abaty Mynydd Melleray, mynachdy Sistersaidd. Roedd hi'n wyliau bendigedig, gyda golygfeydd hardd a llawer o hwyl.


Dw i'n dysgu Cymraeg, felly ro'n i'n meddwl tybed gallwn i ddeall Gwyddeleg. Na allwn! Mae Cymraeg a Gwyddeleg yn wahanol iawn. Ond nes i ddarganfod rhai geiriau sydd yn debyg. 'Dubh' yn Wyddeleg yw 'du' yn Gymraeg a 'maol' yw 'moel'. Ar yr arfordir de, mae tre ar lan y môr o'r enw Tramore yn Saesneg. Mae traeth hyfryd gyda hi. Tramore yn Wyddeleg yw Trá Mhór - 'traeth mawr' yn Gymraeg!

Dw i'n edrych ymlaen at fynd yn ôl i Iwerddon a darganfod mwy am y wlad, iaith a hanes. Am ragor o fanylion am Ffordd Declan Sant, ewch i waterfordcamino.com/st-declans

Wel, os dach chi'n mynd yn ol i Iwerddon, Claire, cofiwch ysgrifennu'r stori i ni! Rob

Darllen Welsh [Plural]

gan Shelagh Fishlock



Welsh [Plural] Repeater Books 2022

This is a book of essays in English which address a range of issues around Welsh identity, its history and its future within or outside the UK. It is a fascinating and often challenging read, inviting us to question traditional attitudes and interpretations of nationhood and our own place in shaping the world we live in.

Fel Saesnes sy wedi dysgu Cymraeg, dw i'n nabod amrywiaeth o Gymry erbyn hyn: Cymry Cymraeg a di-gymraeg, cenedlaetholwyr ffyrnig a Thorïaid gydol oes, pobl o'r De ac o'r Gogledd (a'r Canolbarth wrth gwrs...). Dw i'n cwrdd â Chymry ar wasgar yma yn Lloegr ac mewn gwledydd eraill dros Zoom, ac yn mwynhau darganfod diwylliant, llenyddiaeth a thraddodiadau fy ngwlad fabwysiedig, heb symud i fyw yna.

Bues i yn yr Eisteddfod eleni, yn byw mewn swigen Gymraeg am wythnos gyfan, a ches i'r cyfle i wrando ar olygyddion y gyfrol hon. Ro'n i'n edrych ymlaen, felly, at ei ddarllen, ond do'n i ddim yn disgwyl cael fy herio cymaint ag oeddwn i. Dw i'n cofio Tryweryn, wedi darllen hanes y chwareli a'r pyllau glo, Merched Beca, Dic Penderyn, y "Welsh Not." Mae gen i gywilydd meddwl am berthynas anghyfartal hanesyddol a chyfoes rhwng Lloegr a Chymru. Er fy mod i wedi ymddeol â phensiwn hael, mae'n amlwg fy mod i'n un o'r "good guys" on'd ydw i? Dyw pethau ddim mor syml â hynny.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ym mhennod gyntaf y llyfr mae Martin Johnes yn trafod y perthynas rhwng dehongliad hanes, dealltwriaeth y presennol ac ein parodrwydd i symud ymlaen. Wrth gwrs, mae Cymru wedi dioddef yn sgil gweithredoedd yr hen elyn, ond bydd rhaid wynebu cyfrifoldebau'r hen wlad hefyd. Elwodd foneddigion Cymreig o'r farchnad caethweision a siwgr, Cymry lleol â ymosododd ar deuluoedd du yn Grangetown, ac mae digon o drigolion Caerdydd yn berchen tŷ haf yng Ngwynedd. Dim ond trwy dderbyn y gorffennol, y da a'r drwg, meddai fe, bydd hi'n bosibl creu dyfodol llwyddiannus i Gymru.

Mae sawl pennod hefyd sy'n trafod hunaniaeth Cymreictod. Beth mae hynny'n golygu, yn enwedig i bobl o leiafrifoedd ethnig? Dw i'n cofio gwers lefel Mynediad, yn dysgu "O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?" Fel Saesnes, ro'n i'n meddwl taw cwestiwn eitha od oedd hynny, (heb sôn am y treigladd trwynol wrth ateb!) ac wedyn dod i sylweddoli pa mor sylfaenol yw gwreiddiau a "perthyn" mewn cymuned sy wedi cael ei chwalu dros ddegawdau, hyd yn oed dros ganrifoedd. Ond i bobl sy wedi dioddef hiliaeth, sy'n cael eu gweld fel estroniaid, gall y cwestiwn diniwed hwn troi yn her i'w hawl i fod yn Gymreig. Hyd yn oed yn y gymuned wen gall "Cymreictod" bod yn bwnc llosg. A yw Cymry Cymraeg yn fyw Cymreig na'r rhai sy ddim yn siarad yr iaith? Beth am y rhai sy wedi gadael Cymru, neu sy ddim yn cefnogi tîm rygbi/pêl-droed Cymru? Mae Morgan Owen yn trafod ei brofiad o wneud gradd yn y Gymraeg yng Nghaerdydd, wedi cael ei fagu ym Merthyr mewn teulu dosbarth gweithiol. Er ei fod yn Gymro Cymraeg, roedd ei hanes, ei ddiwylliant yn anweledig, yn ddiwerth. Yn ei erthygl "We Bleed Red" mae Joe Dunthorne (magwyd yn Abertawe, yn byw yn Llundain ers blynnyddoedd), yn disgrifio gwylio gêm rygbi yng Nghanolfan Cymry Llundain, ac yn teimlo'n rhan o'r gymuned "Welshish," "Welsh-enough," "Wish -we-were-Welsher."

Mewn ffordd, dyw dadlau'r gyfrol hon ddim yn berthnasol i rywun sy ddim yn byw neu'n dod o Gymru. Ond mae digon o'r problemau a thrafodir yma'n codi ym mhob gwlad - hiliaeth, tlodi, anghydraddoldeb. A hefyd mae hi'n gorfodi i chi beidio symleiddio neu rhamanteiddio hanes a diwylliant y wlad. Mae'n bosib mwynhau llenyddiaeth a hen

draddodiadau, eisteddfota neu fynd i wrthdystiad "Nid yw Cymru ar Werth," gan gofio pa mor gymhleth, a hefyd pa mor gyffredin yw Cymreictod, neu unrhyw hunaniaeth genedlaethol.

Edward Llwyd

gan Martin Jones



Os rydych chi'n darllen Y Wennol yn rheolaidd, byddwch chi wedi gweld nifer o gyfeiriadau at Edward Llwyd - naill ai rhaglenni teithiau maes Cymdeithas Edward Llwyd neu adolygiadau o rai o deithiau maes y Gymdeithas. Ond pwy oedd Edward Llwyd? Mae'n ymddangos i fi ei fod e'n rhywun sy ddim yn adnabyddus o fewn Cymru, ond yn ôl Y Bywgraffiadur Cymreig, botanegwr, daearegwr, hynafiaethydd, ac ieithegydd oedd Edward Llwyd a enillodd enwogrwydd rhyngwladol am ei gyfraniadau pwysig yn y meysydd gwahanol hyn.

Dyddiau Cynnar

Cafodd Edward Llwyd (neu Lhuyd) ei eni, yn blentyn llwyn a pherth, yn 1660 ym mhlwyf Loppington, Sir Amwythig, a chafodd ei fagu yno am naw mlynedd gan famaeth o'r enw Catherine Bowen. Roedd yn fab i Edward Lloyd, Llanforda ger Croesoswallt, llywodraethwr Castell Croesoswallt ar un adeg a chadlywydd y gwarchodlu Cymreig yno. Aeth i ysgol ramadeg Croesoswallt, ac yn 1682 cofrestrodd fel myfyriwr yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Ni chafodd radd, ond yn 1684 cymerodd swydd yn Amgueddfa'r Ashmolean fel cynorthwywr i Dr

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Plot, ceidwad cyntaf yr amgueddfa. Yn 1690, penodwyd yn geidwad fel olynydd i Dr Plot.

Yn fuan ar ôl agor yr amgueddfa, sefydlwyd Cymdeithas Athronyddol Rhydychen ac mae cofnodion y Gymdeithas yn rhoi gwybodaeth am arbrofion a darganfyddiadau cynharaf Edward Llwyd yn y gwyddorau naturiol ac arbrofol. Mae'r rhain yn cynnwys creu papur anllosgadwy o fwyn asbestos, a disgrifio planhigion o Ogledd Cymru na chynhwyswyd yng nghatalog John Ray (prif naturiaethwr Lloegr yn ystod bywyd Edward Llwyd).

Botanegwr

Yn y 1680au, roedd Edward Llwyd yn canolbwyntio ar fotaneg. Yn 1682, casglodd 37 o blanhigion mynyddig o'r Wyddfa, Cadair Idris, ac Aran Benllyn. Daeth yn ôl i'r Wyddfa yn 1688 lle darganfydded mwy na deugain o blanhigion newydd. Cafodd rhestr Edward Llwyd o blanhigion Eryri ei chynnwys yn y llyfr "Synopsis of British Plants" gan John Ray yn 1690.

Daearegwr

Mae'n ymddangos bod Edward Llwyd wedi bod yn caglu ffosilau ers peth amser erbyn 1690, a nawr aeth ati i baratoi catalog o ffosilau Prydain. Cafodd y catalog (arweinlyfr darluniedig cyntaf i ffosilau Prydeinig) ei gyhoeddi yn 1698, ac efallai taw cyfraniad pwysicaf Edward Llwyd i wyddoniaeth ydy e. Helpodd ei waith o gasglu, disgrifio, llunio, ac enwi ffosilau i sefydlu palaeontoleg fel astudiaeth wyddonol ar adeg pan oedd tarddiad ffosilau yn bwnc dadleuol.

Hynafiaethydd

Yn 1693, cafodd Edward Llwyd wahoddiad i helpu paratoi argraffiad newydd o Britannia gan William Camden, llyfr a gyhoeddwyd gyntaf yn 1586. Cytunodd e i adolygu'r disgrifiadau o siroedd Cymru, a theithiodd Gymru er mwyn casglu gwybodaeth am hynafiaethau'r wlad: cromlechau, meini hirion, caerâu ayyb. Mae cyfraniadau Edward Llwyd gyda rhannau gorau'r llyfr (a gyhoeddwyd yn 1695), Chymru, ac maen nhw'n garreg filltir yn hanes topograffeg Brydeinig.

Ieithegydd

Erbyn 1695, roedd Edward Llwyd yn troi'i feddwl at y syniad o ysgrifennu llyfr am Gymru a fyddai'n cwmpasu byd natur, hinsawdd, tirweddau daeareg, hynafiaethau, ac iaith. Yn 1697, er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer y llyfr hwn, cychwynnodd Edward Llwyd gyda thri chynorthwyydd ar ei daith fawr, yn ymweld â Chymru, Iwerddon, Yr Alban, Cernyw, a Llydaw, cyn dychwelyd i Rydychen yn 1701. Roedd y daith yn llawn digwyddiadau. Er enghraifft, fe'u harestiwyd nhw yng Nghernyw am fod pobl yn credu taw lleidr oedd e, ac yn Llydaw, fe'u drwgdybiwyd o fod yn ysbiwyr! Yn 1707, cyhoeddwyd cyfrol gyntaf y llyfr (Archaeologia Britannica) a oedd yn trafod materion ieithyddol ynglŷn â'r ieithoedd Celtaidd. Heddiw, mae'r llyfr yn cael ei gydnabod fel astudiaeth arloesol.

Dyddiau Olaf

Yn 1701, cyflwynodd Prifysgol Rhydychen radd MA anrhydeddus iddo, ac yn 1707 gwnaethpwyd yn Gymrawd i'r Gymdeithas Frenhinol. Ond roedd hanes gweddill ei fywyd yn un trist. Nid dyn cyfoethog oedd Edward Llwyd ac o ganlyniad i'w deithiau aeth i ddyled. Ers 1698, roedd e wedi bod yn dioddef gan yr asthma ac ym mis Mehefin 1709 daliodd annwyd a droes yn bliwrasi a bu farw'r un mis. Gwrthododd Prifysgol Rhydychen brynu llawysgrifau Edward Llwyd, a chwympodd ei gasgliadau i ddwylo preifat - ond llosgwyd y rhan fwyaf ohonynt mewn tanau. Ond does dim amheuaeth bod Edward Llwyd yn un o ysgolheigion mwyaf ei gyfnod. Gwnaeth waith arloesol o'r pwysigrwydd mwyaf mewn botaneg a daeareg, a'r sail ar gyfer astudiaeth ymhellach yr ieithoedd Celtaidd oedd gwaith Edward Llwyd.



Cofiwch - mae croeso mawr i chi ar ein teithiau.
Gwelwch y rhaglen ar dudalen 7

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Llefydd ble mae grwpiau Cymraeg ar gael

Southgate, Bro Gŵyr

Three Cliffs Cafe **SA3 2DH** - pob pnawn dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â fi o flaen llaw bobwennol@ntlworld.com

Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. **SY3 7NN** ar y cyntaf a'r trydydd ddydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts - bryro@btinternet.com neu ar 07985919358

Porth, Y Rhondda

Yr Hen Lyfrgell, 47 Pontypridd Road **CF39 9PG**. Cyfarfod yn y lolfa goffi bob dydd Iau am 10.30 y.b. Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

Cwm Ivy - Shw mae dydd Iau

Cwm Ivy cafe and Crafts, Gŵyr **SA3 1DJ**. Trowch i'r dde wrth eglwys Llanmadog a pharciwch yn y cae ar y dde (honesty box). Cerddwch i lawr dipyn ac mae'r caffi ar y dde. Golygfeydd ysblennydd a chroeso Cymraeg cynnes. Pob dydd Iau o 11.00 tan 4.00

Lock Keepers, Horseshoe Drive, Over, Caerloyw GL2 8DB. Dydd Gwener 9fed Medi, 11yb. Dewch i gael hwyl a chyfle gwyh i siarad Cymraeg. Peidiwch â bod yn swil!

Abergwaun, Sir Benfro. Cyfarfod yn Janes Woolshop, High Street, Abergwaun. **SA65 9AR** bob dydd Llun rhwng 10.30 a 12.30. Croeso cynnes i bawb!

St Albans, Hertfordshire. Cyfarfod yn Smallford Farm Shop, Hatfield Road. **AL4 0H** ar yr 2il dydd Sadwrn o'r mis o 10.30 tan 11.30 yb.

Ebost: amandaferon@outlook.com

Trefdraeth, Sir Benfro. Cwrdd bob bore dydd Mercher am 10.30 y.b. yng Nghaffi Blas at Fronlas yn Stryd y Farchnad. **SA42 0PH**. Croeso cynnes i bawb.

If you go to a Welsh group or know of one that is not on this list please let me know. Groups are a simple and effective way of, not only keeping your Welsh going but, developing it

and will eventually get you into the Welsh World. If you want to start one in your area let me know and together we can try and get members.

Cyfarfod Hybrid Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

gyda Richard Gammon

adroddiad Richard Cleaves



O'r diwedd dyn ni wedi dod yn ôl! Am y tro cyntaf ers y cyfnod clo cynhaliwyd cyfarfod Cymdeithas Hanes Bro Ogwr yng Nghlwb Criced Tondau. Roedd y stafell wedi cael ei ailaddurno ac roedd hi'n hyfryd i gael y cyfle i gwrdd ein gilydd unwaith eto. Cyfarfod 'hybrid' oedd o: roedd rhai ohonom ni yn y stafell efo rhai ar Zoom.

Roedd un o'n haelodau, Richard Gammon, yn rhannu ei waith ymchwil am William Randolph Hearst a'r Castell Sain Dunwyd efo ni. Roeddwn i wedi gweld Castell Sain Dunwyd o lwybr yr arfordir ac o'r llwybrau o gwmpas y castell. Doeddwn i ddim wedi sylweddoli pa mor fawr oedd o a doeddwn i ddim yn gwybod am ei hanes.

Breuddwyd Randolph Hearst oedd cael rhyw hen gastell i fyw ynddo! Yn y diwedd roedd ganddo mwy nag un!! Dyn hynod o gyfoethog oedd ei dad. Roedd George Hearst yn rhan o'r rhuthr am aur yn California yn 1850 ond heb ffeindio dim byd! Ond nes ymlaen enillodd o gyfoeth anhygoel gan ffeindio aur a gan sefydlu a datblygu Anaconda, cwmni mwyngloddio copr ac arian.

Ganwyd Randolph Hearst yn 1863 ac aeth i Harvard pan oedd o'n ddeunaw oed. Tipyn o lanc oedd o, yn mwynhau partïon mwy nac ei efrydiau. Hefyd, roedd o'n gwneud arian am y tro cyntaf efo'r papur newydd, Harvard Lampoon. Dyna'r dechrau ar ei ymerodraeth papurau newydd: roedd o'n prynu papurau oedd yn methu ac yn eu troi nhw o gwmpas gan

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ddechrau efo'r New York Journal. Erbyn 1930 roedd ganddo 28 o bapurau newydd mewn 18 o ddinasoedd a hefyd 14 o gylchgronau fel Cosmopolitan, Harpers Bazaar a Good Housekeeping. Priododd Millicent Wilson, côrferch o Efrog Newydd, yn 1903, ac roedd ganddyn nhw pum fab. Dechreuodd o garwriaeth efo'r actores ffilm a digrifwraig, Marion Davies, yn 1917.

Roedd o, nid yn unig yn casglu papurau newydd, ond hefyd pob math o bethau, yn cynnwys arfogaeth a hefyd nenfydau! Felly, roedd ganddo broblem fawr ... ble i'w cadw nhw. Yn ddelfrydol rhyw gastell, efallai ar ben bryn! Adeiladwyd ei gastell cyntaf yn y 1920au, Castell Hearst, ar arfordir California, La Cuesta Encantada, Y Bryn Swynedig. Hyd at 1914 roedd o'n mynd bob blwyddyn i Ewrop. Roedd o eisiau prynu rhyw gastell yno hefyd ac ar ôl y rhyfel cyntaf daeth ar draws San Dunwyd. Hen gastell oedd yn perthyn i'r teulu Stradling o'r 14eg canrif tan yr 18fed canrif. Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif roedd yr adeilad wedi mynd â'i ben iddo. Dyma'r lle! Erbyn y 1930au roedd o'n croesawu pobl enwog i bartïon yna, yn cynnwys Lloyd George, Charlie Chaplin, Errol Flynn a George Bernard Shaw. Roedd gan y castell 35 o stafelloedd gwely a 35 o stafelloedd ymolchi. Roedd o'n croesawi bobl leol i ddefnyddio'r pwll nofio enfawr unwaith y flwyddyn.

Diolch yn fawr iawn i Richard am sgwrs mor ddiddorol ac am luniau hyfryd o gastell Sain Dunwyd. Mae recordiad ar gael i aelodau.

Bydd ein cyfarfodydd ym mis Hydref a mis Tachwedd ar Zoom yn unig. Nos Lun 10 Hydref am 7-30 bydd Delyth Jenkins yn sgwrsio am hanes y delyn a'i thaith ar lwybr Arfordir gyda'i delyn. Nos Lun 14 Tachwedd bydd Siân James yn sôn am Dair Cymraes Mae Hanes Wedi Anghofio. Am fwy o wybodaeth ewch i'r tudalen Facebook, <<https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>> neu cysylltwch â Nesta Humphreys, nestahumphreys@btinternet.com

Pawb yma yn siarad Cymraeg!

Dw i wedi copio y darn yma o dudalennau 'Wilia' ein papur bro yma yn Abertawe. Dw i'n siŵr na fydden nhw'n poeni.



Bwyty Truffle

Yn haeddu ein cefnogaeth!

Mae pob un o 11 aelod o staff Truffle, ar King Edward's Road, yn siarad Cymraeg ac yn gyn-ddisgyblion Ysgol Bryn-y-Môr. Oes angen rhagoro esgus dros fynd mas i gael pryd o fwyd?

Y manylion pwysig

Cyfeiriad:

1A King Edward's Rd, Brynmill, Swansea
SA1 4LH

Amser agor:

Dydd Iau 6 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Gwener 5 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Sadwrn 12 c.d. - 11.30 y.h.

Cysylltwch:

01792 547 246
info@truffleswansea.com

Geirfa

Taith Felindre

Mwnt a beili - motte and bailey
Cnwd - crop
Mwyar duon - blackberries
Gorchuddio - to cover
Iorwg - ivy
Sychedig - thirsty
Clebran - to chatter
Anheddfa - a settlement
Poblogeiddo - populated
Pobl bach! - good heavens
Yn gadarn - solid, strong
16 Cipolwg - glance

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Pentrefan - hamlet
 Gwyliadwrus - observant
 Ffrwd - a leet, a stream
 Olwyn dŵr - waterwheel
 Perchennog - owner
 Cymeriad - character
 Mynwent - graveyard
 Yn ein hoedran ni - at our age
 Moethusrwydd pur - pure luxury
 O ddifri - seriously
 Un ymdrech fawr - one big attempt
 Llai gweledol - less visual
 Man gwyn, fan draw - the perception that the grass is greener on the other side

Penwythnos garddio

Rhy frawychus - too scary
 Peidiwch â fod ofn - don't be afraid
 Cartrefol - homely
 Ffurfiol - formal
 Sefyllfaoedd cefnogol - supportive atmosphere
 Tywys - to lead
 Cynllun - plan
 Gwirfoddoli - to volunteer
 Llwyn - bush
 Tafarn gymunedol - community pub
 Haeddianol - deserved
 Anhygoel - amazing

Bwydo'r ieir

Ffwng - fungi
 Ywen - yew tree
 Hynafol - ancient
 Syniad o'i faint - an idea of its size
 Cadarnhau - to confirm
 Dychymyg - imagination
 Tebygrwydd - similarity
 Iâr - chicken
 Tri cham - three stages
 Harddwch - beauty
 Anturiaethau - adventures
 Wrth fy modd - delighted
 Hoff leoedd - favourite places
 Siafftau mwynloddio - mine shafts
 Hynafiaid - ancestors
 Esgyrn - bones

Ffordd o ddysgu

Podlediad - podcast
 Iaith lafar - spoken word
 Awgrymu - to suggest
 Crynhoi - to summarise
 Ymennydd - the brain
 Ymarfer corff - exercise
 Anadlu - to breathe
 Cynifer - so many
 Mwy na thebyg - more than likely

Llofruddiaeth

Llofruddiaeth - murder
 De dwyrain Cernyw - south east Cornwall
 Sŵn taro - the sound of a hit
 Lolfa - lounge
 Colomen anffodus - unfortunate pigeon
 Ysglyfaeth - prey
 Cuddio - to hide
 Ymosod - to attack
 Hela - to hunt
 Menyw - the female
 Mwy o faint - larger in size
 Gwryw - the male
 Syndod - surprise
Cymraeg a Cheffylau
 Caerfaddon - Bath
 Marchogaeth - horse riding
 Gofalwraig - carer
 Hosan wen - the white part at the bottom of a horse's foot

Cyd-ddigwyddiad

Ymddeol - to retire
 Parhau - to last
 Mamol - on the mother's side
 Cyfnod - period
 Cyffredin - ordinary
 Diflas - boring
 Cyd-ddigwyddiad - coincidence
 Cysylltiadau - connections
 Annisgwyl - unexpected
 Anghredadwy - incredible
 Penbedw - Birkenhead
 Datblygu - to develop
 Union yr un - exactly the same
 Cyflwyno - to introduce

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cysgod - shadow
 Perchennog - owner
 Cwch rhwyfo - rowing boat
 Ar angor - at anchor
 Ceisio - to attempt
 Darganfod - to discover
 Llynges fasnachol - merchant navy
 Afon Tafwys - river Thames
 Dadlwytho - to unload
 Ar glwm - tied up
 Siglo - to shake
 Gwirionedd - truth
 Rhyfeddach - stranger
 Ffuglen - fiction

Cath yng nghanol gaeaf

Gwlad Pwyl - Poland
 Cysylltu - to communicate
 Ar y cyfan - on the whole
 Desgau talu electroneg - electronic tills
 Blwch arian - money boxes
 Llydan - wide
 Swyddfa - office
 Anwesu - to caress
 Canu grwndi - to purr
 Tymheredd - temperature
 Goroesi - to survive
 Coeden ffa Jac - Jack's beanstalk

Gwell hwyr na hwyrach

Cynhaefu - to harvest
 Yn reit fuan - very soon
 Pryfed - flies
 Peillio - to pollinate
 Profi - to prove

Ffordd Declan Sant

Ffordd Declan Sant - St Declan's Way
 Pumed ganrif - fifth century
 Yr Unol Daleithiau - the United States
 Abaty - abbey
 Golygfa - view
 Gwyddeleg - the Irish language

Welsh Plural

Amrywiaeth - variety
 Cenedlaetholwr - nationalist
 Ar wasgar - the Welsh overseas
 Mabwysiedig - adopted
 Swigen - bubble
 Anghyfartal - unequal
 Dehongliad - interpretation
 Elwa - to profit
 Hunaniaeth - identity
 Sylfaenol - fundamental
 Chwalu - to scatter, break up
 Estron - stranger, foreigner
 Anghydraddoldeb - inequality
 Gwrthdystiad - demonstration

Edward Llwyd

Daearegwr - geologist
 Hynafiaethydd - antiquary
 Ieithegydd - philologist
 Esgeuluso - to neglect
 Plentyn llwyn a pherth - illegitimate child
 Mamaeth - nanny
 Llywodraethwr - governor
 Cadlywydd - commander
 Croesoswallt - Oswestry
 Olynydd - successor
 Arbrofol - experimental
 Anllosgadwy - incombustible
 Arweinlyfr darluniedig - illustrated guidebook
 Meini hirion - standing stones
 Pliwrisi - pleurisy

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Ailaddurno - to redecorate
 Gwaith ymchwil - research
 Y rhuthr am aur - the gold rush
 Cyfoeth anhygoel - incredible wealth
 Mwyngloddio - mining
 Efrogddia - studies
 Ymerodraeth - empire
 Arfogaeth - armour
 Nenfwd - ceiling
 Y bryn swynedig - the enchanted hill
 Mynd a'i ben iddo - to fall into ruin